

Bundle Audit & Risk Assurance Committee 5 May 2020

- 6.1 Letter from Auditor General for Wales
 - AC190 - Letter to Chief Executives - Cymru
 - AC190 - Letter to Chief Executives - English

Cyfeirnod: AC/190/caf

Dyddiad cyhoeddi: 30 April 2020

Annwyl gydweithiwr

Rhaglen Waith Archwilio Cymru

Rwyf yn ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am rai agweddau pwysig ar y gwaith y bydd fy swyddfa yn ei wneud yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Yn gyntaf, fodd bynnag, hoffwn dalu teyrnged i'r holl weision cyhoeddus sy'n gweithio mor galed i ddod â'n gwlad drwy'r argyfwng hwn. Fel y sefydliad sy'n gyfrifol am graffu ar gynifer o'r cyrff cyhoeddus hyn, mae gennym ddealltwriaeth freintiedig o ba mor hanfodol ydynt i fywydau pawb, bob dydd – a hyd yn oed yn fwy felly ar adeg fel hon. Fel Archwilydd Cyffredinol, ar ran pawb yn Archwilio Cymru, ac yn syml fel aelod o'r cyhoedd – diolch i chi.

Fel y gwyddoch, y mis diwethaf penderfynais dynnu'n ôl o'r holl waith archwilio ar safle, wrth i'r gwasanaeth cyhoeddus ganolbwyntio ar y pandemig. Rydym wedi parhau i wneud cynnydd ar weithgarwch arall tra'n gweithio ac yn ymgysylltu â chi o bell. Rwyf yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau na fydd ein gwaith archwilio'n cael effaith niweidiol ar ymdrechion cyrff cyhoeddus, sydd dan bwysau mawr i ddelio â'r argyfwng cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu fy mod eisiau inni fod yn gwbl oddefol. Mae gan waith archwilio cyhoeddus, sydd wedi ei dargedu a'i gyflawni'n dda, ran hanfodol i'w chwarae ar hyn o bryd o ran sicrhau gwerth am arian, llywodraethu da ac atebolrwydd. Mae'r llythyr hwn yn esbonio sut y byddwn yn ymdrin â'n gwaith dros y misoedd i ddod.

Adroddiad ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn unol â'r gofynion statudol, rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2020-21, gan gydnabod y bydd angen ail-lunio neu ohirio llawer o'r rhaglen waith archwilio perfformiad a ddisgrifir ynddo.

Un eithriad pwysig i hyn yw fy adroddiad cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y mae'n ofynnol i mi yn ôl statud ei osod gerbron erbyn 5 Mai 2020. Penderfynais osod fy adroddiad 'heb ffanffer' gerbron y Senedd ar 5 Mai, a gohirio unrhyw ymgysylltu sylweddol ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ac eraill ynghylch negeseuon allweddol yr adroddiad tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Rwyf o'r farn fod hon yn ffordd bragmatig o gyflawni fy nyletswydd statudol o dan Ddeddf 2015 heb dynnu sylw'r sector cyhoeddus ehangach ond gyn lleied ag sydd rhaid ar yr amser anodd hwn. Gobeithiaf y bydd yr oedi o ran ymgysylltu hefyd yn gymorth i sicrhau na chaiff effaith yr adroddiad pwysig hwn, o ran cefnogi newid adeiladol, ei lleihau'n sylweddol.

Gwaith archwilio amser real mewn perthynas â COVID-19

Mae eisoes yn amlwg i'm timau archwilio bod pobl a sefydliadau ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio mewn ymateb i COVID-19. Mae'r argyfwng yn gorfodi pawb ohonom i arloesi a mynd i'r afael â materion hirsefydlog ar frys. Yn ddiamau, fe ddaw cyfleoedd a risgiau hefyd i'r amlwg yn ystod y cyfnod hwn a all, os gweithredir arnynt yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach, gynhyrchu manteision mewn amser real a helpu i liniaru risgiau eraill.

I'r perwyl hwnnw, mae arnaf eisiau defnyddio gallu a chapasiti Archwilio Cymru er budd y sector cyhoeddus ehangach. Yn benodol, bwriadaf ymgymryd â gwaith sy'n dal ac yn rhannu dysgu a phrofiad mewn amser real ar draws y cyrff a archwilir gennym. Bydd hyn yn golygu bod ein staff yn casglu arferion newydd ac arferion eraill wrth iddynt ddod i'r amlwg ac yn eu dadansoddi'n gyflym er mwyn tynnu allan bwyntiau dysgu perthnasol. Rydym wrthi'n datblygu offeryn meddalwedd i'n cynorthwyo i gasglu a phrosesu'r wybodaeth yma. Bydd yr hyn y byddwn yn ei ganfod a'i ddeall o ganlyniad i hyn yn cael ei rannu'n gyflym gyda'n cysylltiadau allweddol ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru.

Rwyf yn boenus ymwybodol y bydd angen inni gynnal unrhyw weithgaredd mewn modd nad yw'n llesteirio'r gwaith pwysig iawn sy'n digwydd ledled Cymru, ac mewn ffordd a all ychwanegu gwerth sylweddol drwy roi gwybodaeth ar gyfer y gwaith hwnnw. Fy mwriad felly yw gweithio'n agos gyda chyrrff a archwilir i'w cynorthwyo i wella eu hymatebion esblygol i COVID-19, tra'n cadw fy ngwrthrychedd a'm hannibyniaeth fel Archwilydd Cyffredinol.

Mae'n dda gennyf ddweud ein bod wedi derbyn cefnogaeth i'r cynnig hwn gan yr Ysgrifennydd Parhaol ac uwch swyddogion eraill yn Llywodraeth Cymru, CLILC a Chyddfederasiwn GIG Cymru. Cyn gynted ag y gallwn, daw fy staff i gysylltiad er mwyn trafod materion ymarferol a fydd, fel y dywedais, wedi'u cynllunio i darfu gyn lleied ag y bo modd.

Amgaeaf grynodedd byr o'r prosiect er gwybodaeth i chi. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch y dull hwn, neu os gellwch awgrymu meysydd penodol lle gellid ei gyfeirio'n fuddiol, rhowch wybod i mi neu i aelod o'm tîm.

Gwaith archwilio arall mewn perthynas ag ymateb Cymru i COVID-19

O ystyried effaith COVID-19, byddaf yn ail-lunio fy rhaglenni gwaith archwilio a gynlluniwyd o'r blaen. Ni fyddwch yn synnu, er enghraifft, fy mod yn olrhain llifoedd cyllid amrywiol COVID-19 oddi wrth Lywodraethau'r DU a Chymru ac yn ystyried beth yw'r ffordd orau imi sicrhau pobl Cymru bod yr arian hwnnw'n cael ei reoli'n dda a bod y defnydd o arian cyhoeddus yn cael ei lywodraethu'n briodol a bod yna atebolrwydd. Gan edrych ychydig ymhellach ymlaen, rhagwelaf y byddwn yn canolbwyntio ar yr hyn y mae effaith yr argyfwng presennol yn ei olygu o ran cadernid a ffurf gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol. Wrth gwrs,

mae amseriad yn bopeth, a byddaf yn sicrhau nad yw ein gwaith yn amharu ar ymdrechion y sector cyhoeddus i fynd i'r afael â'r argyfwng, tra'n dal i adrodd yn ddigon trylwyr a phrydlon er mwyn hyrwyddo craffu a dysgu.

Archwilio cyfrifon

Mae fy Nghyfarwyddwyr Ymgysylltu wedi ysgrifennu at bob un ohonoch ynglŷn ag effaith argyfwng COVID-19 ar eich cynllun archwilio. Mae hyn yn cynnwys risgiau archwilio penodol, yn ogystal â diwygiadau i'r amserlen archwilio a'r gofynion cyfrifyddu (lle bo'n berthnasol). Bydd fy staff yn parhau i ymgysylltu'n agos â chi a'ch uwch-dîm dros yr wythnosau a'r misoedd sydd i ddod er mwyn sicrhau ein bod yn darparu archwiliad o ansawdd uchel o'ch cyfrifon yn yr amgylchiadau tra gwahanol hyn.

Materion eraill

Yn ogystal ag ystyried y ffordd orau i ddefnyddio adnoddau Archwilio Cymru i gefnogi ymdrech COVID-19 drwy ein gwaith archwilio, rwyf yn ymwybodol iawn bod adnoddau staff ar draws y gwasanaethau cyhoeddus dan fwy o bwysau nag erioed o'r blaen. Mae arnaf eisiau rhoi gwybod i chi fy mod, yn amodol ar argaeledd ac ar yr amod na pheryglir annibyniaeth ein gwaith yn y dyfodol, yn barod iawn i ystyried sut y gall fy staff gynorthwyo lle bynnag y bo angen eu sgiliau a'u harbenigedd. Rhowch wybod i mi (neu aelod o'm tîm), os gwelwch yn dda, os oes unrhyw beth penodol y gallwn ei wneud i gynorthwyo.

Ac yn olaf, byddwch wedi sylwi ar y newid yn y manylion adnabod a'r enw yn y llythyr hwn. Gwn mai mater eilradd iawn yw hwn yn yr hinsawdd sydd ohoni, ond, mewn ymateb i adborth ar y ffordd yr ydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu, penderfynasom y llynedd ddwyn ynghyd amrywiol linyddau ein gwaith o dan hunaniaeth ymbarél newydd a chliriach – Archwilio Cymru. Er nad yw'n effeithio ar ein statws cyfreithiol ffurfiol, byddwn yn gweithredu fel Archwilio Cymru o hyn allan yn y mwyafrif helaeth o'n gwaith sy'n wynebu'r cyhoedd. Un rhan yn unig yw hon o raglen ehangach o newid gyda golwg ar ein hadroddiadau archwilio; ein gwefan; ein harddull gyfathrebu a'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu'n fwy cyffredinol, yr wyf yn gobeithio y byddwch yn ei chydabod ac yn ei gwerthfawrogi.

Wrth gloi, hoffwn dalu teyrnged unwaith eto i'm cydweithwyr ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru a'r gwaith aruthrol y maent yn ei wneud dros bobl Cymru.

Yn gywir



ADRIAN CROMPTON

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Nodyn Briffio'r Prosiect:

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu ymroi i gasglu, dadansoddi a rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth yn gyflym yn ystod COVID-19

Mae Dull Newydd o Ymarfer yn dod i'r amlwg yn ystod Argyfwng.

Yn ystod unrhyw argyfwng bydd pobl yn datblygu datrysiadau ac yn gweithio mewn ffyrdd sy'n newydd. Bydd arferion yn dod i'r amlwg sydd y tu allan i ystod yr hyn y gellid ei ddisgrifio yn fusnes fel arfer.

Mae cyfnod estynedig COVID-19 yn rhoi cyfle i ganfod ac ystyried yr arferion newydd hyn o dri safbwynt:

1. Nodi cyfleoedd i wella'r ymateb presennol i'r sefyllfa, mor agos i amser real ag sydd modd;
2. Nodi'r risgiau sy'n dod i'r amlwg (er enghraifft, ymdrechion i dwyllo ar raddfa eang) y gellir eu lliniaru wedyn cyn iddynt ddatblygu ar raddfa fawr; a
3. Cofnodi ac atgyfnerthu arferion newydd, y gellir eu rhannu'n ehangach mewn amser real a'u hymgorffori hefyd fel arfer da yn y 'busnes fel arfer' unwaith y bydd COVID-19 wedi cilio.

Casglu a Chofnodi Arfer Newydd

Mae sefydliadau sy'n brofiadol mewn sefyllfaoedd brys ac argyfwng yn aml yn defnyddio arsylwyr/casglwyr gwybodaeth ochr yn ochr â'u timau adfer, i nodi'r arferion newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg. Cydnabyddir bod y rôl hon yn rhan hanfodol o ddysgu oddi wrth yr hyn sydd wedi digwydd ac mae'n hwyluso'r gwaith o fod yn fwy parod i wynebu'r dyfodol.

Gellir casglu gwybodaeth drwy amrywiaeth o ddulliau sy'n cynnwys arsylwi diduedd, sgysiau ac adolygu dogfennau. Fe'i hategir gan ddadansoddi cyflym i dynnu allan ddealltwriaeth allweddol a bwydo'r dysgu yn ôl. Mae hyn yn 'cau'r cylch' ac yn cefnogi proses o ddysgu a gwella mewn amser real.

Rôl Archwilio Cymru yn cefnogi ymateb Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i COVID-19

Mae cylch gwaith statudol yr Archwilydd Cyffredinol yn gosod Archwilio Cymru mewn sefyllfa unigryw i arsylwi gweithgarwch lle bynnag y defnyddir adnoddau cyhoeddus. Mae gan ein staff rwydweithiau cryf a chydberthnasau dibynadwy â phobl ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Yn gyson â chadw ei annibyniaeth, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu defnyddio staff Archwilio Cymru yn y tri maes a nodwyd uchod, i gefnogi ymdrechion 'tîm Cymru' i ymateb i COVID-19.

Yn bwysig, ni fydd y dull gweithredu a ddilynir yn gosod baich ychwanegol ar gyrff cyhoeddus a bydd yn seiliedig ar rannu gwybodaeth a dadansoddiadau defnyddiol

mewn amser real ochr yn ochr â chasglu'r hyn a allai fod yn wybodaeth a dysgu defnyddiol i eraill.

Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys:

- Staff Archwilio Cymru yn casglu gwybodaeth drwy ddulliau fydd yn cynnwys adolygu dogfennau a deunyddiau cyhoeddus, trafodaethau gydag unigolion a grwpiau ac arsylwi cyfarfodydd (yn gyffredinol drwy weithio o bell);
- Coladu'r deunydd hwn o fewn ac ar draws ein timau archwilio, gan ddefnyddio ein teclyn data SenseMaker, i ddarparu dadansoddiad cyflym; a
- Lledaenu dealltwriaeth, gwybodaeth ychwanegol a phwyntiau dysgu cyffredin posibl yn gyflym i'w ffynonellau data gwreiddiol, ac yn ehangach ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru lle bo'n briodol.

Rhagwelwn y bydd hon yn broses barhaus o 'gasglu, dadansoddi, rhannu ac ailadrodd'. Mae'n bosibl y bydd mwy o werth yn cael ei gynhyrchu dros amser wrth i fwy o wybodaeth gael ei chasglu a'i rhannu â'r bobl a all ei defnyddio i gefnogi eu hymateb i COVID-19. Byddwn hefyd yn cadw golwg fanwl ar y broses ei hun ac yn ei haddasu fel bo'r angen mewn ymateb i adborth ac amgylchiadau sy'n newid.

Bydd y dull gweithredu cyffredinol a ddilynir yn gyson â'r ffordd y datblygwyd ein gwaith Arfer Da dros y degawd diwethaf - gan weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i'w helpu i wella, tra'n cynnal y gwrthrychedd a'r annibyniaeth sy'n ofynnol gan yr Archwilydd Cyffredinol.

Reference: AC/190/caf
Date issued: 30 April 2020

Dear Colleague

Audit Wales work programme

I am writing to update you on some important aspects of the work that my office will be undertaking over the coming weeks and months. Firstly though, I would like to pay tribute to all the public servants who are working so hard to see our country through this crisis. As the organisation responsible for scrutinising so many of these public bodies, we have a privileged insight into how vital they are to everyone's lives, every day – and even more so at a time like this. As Auditor General, on behalf of everyone at Audit Wales, and simply as a member of the public - thank you.

As you know, last month I decided to pull back from all on-site audit work as the public service focused on the pandemic. We have continued to make progress on other activity whilst working and engaging with you remotely. I remain committed to ensuring that our audit work does not have a detrimental impact on the efforts of severely stretched public bodies to deal with the national emergency. That is not to say, however, that I want us to be entirely passive. Well targeted and well delivered public audit has a vital part to play at this time in ensuring value for money, good governance and accountability. This letter explains how we will be approaching our work over the coming months.

Well-being of Future Generations report

In line with statutory requirements, we have published our Annual Plan for 2020-21, recognising that much of the performance audit work programme described in it will now need to be re-shaped or deferred.

One important exception to this is my national report under the Well-Being of Future Generations (Wales) Act 2015, which I am required by statute to lay by 5 May 2020. I have decided to lay my report 'without fanfare' before the Senedd on 5 May, and to defer any significant engagement with public service leaders and others regarding the key report messages until later in the year. I consider this to be a pragmatic way of discharging my statutory duty under the 2015 Act, whilst minimising any unnecessary distractions for the wider public sector at this difficult time. I hope the delay in engagement will also help to ensure that the impact of this important report in supporting constructive change is not significantly diminished.

Real-time audit work in respect of COVID-19

It is already apparent to my audit teams that people and organisations right across the Welsh public services are developing novel and innovative ways of working in response to COVID-19. The crisis is forcing us all to innovate and address long-standing issues with urgency. Both opportunities and risks will doubtless emerge during this period which, if acted upon sooner rather than later, can generate real-time benefits and help to mitigate other risks.

To that end, I want to deploy the capability and capacity of Audit Wales for the good of the wider public sector. Specifically, I propose to undertake work providing real-time capture and sharing of learning and experience across our audited bodies. This will involve our staff in gathering novel and other practice as it emerges and analysing it rapidly to draw out relevant points of learning. We are developing a software tool to assist us in gathering and processing this information. We will share the resulting insights swiftly to our key contacts across the Welsh public service.

I am acutely conscious that we will need to conduct any activity in a manner that doesn't impede the very important work that is happening across Wales, and which can add substantial value in informing that work. My intention is therefore to work closely with audited bodies to support them to improve their evolving responses to COVID-19, whilst preserving my objectivity and independence as Auditor General.

I am pleased to say that we have received support for this proposal from the Permanent Secretary and other senior officials at Welsh Government, the WLGA and the NHS Wales Confederation. As soon as we are able, my staff will be in touch to discuss practicalities which, as I say, will be designed to be as least intrusive as possible.

I attach a short summary of the project for your information. If you have any queries or concerns with this approach, or if you can suggest particular areas where it could be usefully directed, please let me or a member of my team know.

Other audit work in respect of Wales' response to COVID-19

Given the impact of COVID-19, I will be re-shaping my previously planned programmes of audit work. You won't be surprised, for example, that I am tracking the various COVID-19 funding flows from both UK and Welsh Governments and considering how best I can assure the people of Wales that those funds are well managed and that there is appropriate governance and accountability for the use of public money. Looking a little further ahead, I envisage a focus on what the impact of the current crisis means both in terms of the resilience and the future shape of public services in Wales. Of course, timing is everything, and I will ensure that our work does not prejudice the efforts of the public sector to tackle the crisis, whilst still reporting sufficiently thoroughly and promptly to support both scrutiny and learning.

Audit of accounts

My Engagement Directors have written to each of you about the impact of the COVID-19 emergency on your audit plan. This includes specific audit risks, as well as

revisions to the audit timetable and accounting requirements (where relevant). My staff will continue our close engagement with you and your senior team over the coming weeks and months to ensure that we deliver a high quality audit of your accounts in these changed circumstances.

Other matters

As well as considering how best to deploy Audit Wales resources to support the COVID-19 effort through our audit work, I am very aware that staff resources across public services are being stretched as never before. I want to let you know that, subject to availability and provided that the future independence of our work is not compromised, I am very willing to consider how my staff can assist wherever their skills and expertise may be required. Please let me (or a member of my team) know if there is anything specific that we can do to assist.

And finally, you will have noticed the identity and name change in this letter. Such a secondary issue in the current climate, I know, but in response to feedback on how we communicate and engage, we took the decision last year to bring together the various strands of our work under a new, clearer umbrella identity – Audit Wales. While not affecting our formal legal status, we will operate as Audit Wales henceforth in the vast majority of our public facing work. It is just one part of a wider programme of change for our audit reports; our website; our communications style and the way we engage more generally, that I hope you will recognise and value.

In closing, I would like to pay tribute once again to my colleagues across the Welsh public service and the phenomenal work they are doing for the people of Wales.

Yours sincerely



ADRIAN CROMPTON
Auditor General for Wales

Title

Project Briefing note:

The Auditor General for Wales plans to support the rapid collection, analysis and sharing of knowledge and insights during COVID-19

Novel Practice Emerges During a Crisis.

During any emergency or crisis people will develop solutions and work in ways that are novel. Practices will emerge that are outside the range of what could be described as business as usual.

The prolonged duration of COVID-19 provides the opportunity to capture and consider this novel practice from three perspectives:

1. The identification of opportunities to improve the current response to the situation, in as close to real time as possible;
2. The identification of emerging risks (for example widespread fraud attempts) that can then be mitigated before they develop to a large scale; and
3. The recording and consolidation of novel practice, that could be shared more widely in real time and also incorporated as good practice into 'business as usual' once COVID-19 has subsided.

Collecting and Recording Novel Practice

Organisations that are experienced in emergency and crisis situations often deploy observers / information gatherers alongside their recovery teams, to identify the novel practice as it emerges. This role is recognised as a vital part of learning from what has happened and facilitates being better prepared to face the future.

The collection of information can be achieved through a range of approaches that include impartial observation, conversations and document review. It is supported by rapid analysis to draw out key insights and feedback learning. This 'closes the loop' and supports a process of real time learning and improvement.

The role of Audit Wales in supporting the Welsh Public Services response to COVID-19

The Auditor General's statutory remit places Audit Wales in a unique position to observe activity wherever public resources are being used. Our staff have strong networks and trusted relationships with people across the Welsh public services. Consistent with preserving his independence, the Auditor General plans to deploy Audit Wales staff in the three areas identified above, in support of the 'team Wales' efforts to respond to COVID-19.

Importantly, the approach taken will not impose an additional burden upon public bodies and will be predicated upon sharing useful information and analysis in real time alongside collecting what might be useful insights and learning for others.

Specifically, this will involve:

- Audit Wales staff collecting information through methods including reviews of documents and published materials, discussions with individuals and groups and observations of meetings (generally via remote working);
- The collation of this material within and across our audit teams, using our SenseMaker data tool, to provide rapid analysis; and
- The rapid dissemination of insights, additional knowledge and potential shared learning points to their original data sources, and more widely across Welsh public services where appropriate.

We anticipate that this will be an ongoing process of 'collect, analyse, share and repeat'. Greater value will potentially be generated over time as more information is gathered and shared with the people who can use it to support their response to COVID-19. We will also keep the process itself under close review and adjust it as needed in response to feedback and changing circumstances.

The overall approach taken will be consistent with how our Good Practice work has been developed over the last decade - working with public services to support them to improve, whilst maintaining the objectivity and independence that is required of the Auditor General.